



**Bwyd a Diod Cymru
Rhwydwaith Clwstwr**
**Food & Drink Wales
Cluster Network**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

RHAGLEN PARTNERIAETH ARLOESI AR WAITH

BRIFF Y RHAGLEN

Dogfen IP_WG_001

Gorffennaf 2018



**Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales**

CRYNODEB

Mae Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn gwahodd prosiectau cydweithredol i ddatblygu atebion arloesol ym maes bwyd a diod sy'n ymdrin â heriau cymdeithasol a heriau yn y sector cyhoeddus neu broblemau cyffredin sy'n wynebu grwpiau bach o fusnesau yn y diwydiant bwyd a diod. Bydd y rhaglen yn cefnogi prosiectau cydweithredol sy'n cael eu harwain gan fusnes ac yn cynnwys o leiaf un busnes, sefydliad ymchwil neu sefydliad arall yn y sector cyhoeddus.

Gwahoddir prosiectau i gystadlu am gyfran o hyd at £750,000 i ymchwilio i ddatblygu cynnyrch, gwasanaethau neu brosesau newydd. Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

CEFNDIR

Mae Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn lansio Rhaglen Partneriaeth Arloesi ar waith i gefnogi prosiectau sydd wedi eu harwain gan fusnes i wneud y gorau o gyfleoedd cydweithredol wrth ddatblygu cynnyrch, gwasanaethau neu brosesau newydd, a fydd yn cyflymu twf trwy gynyddu arloesedd a datblygu llwybrau i'r farchnad. Mae'r rhaglen Partneriaeth Arloesi ar Waith yn anelu at fynd i'r afael â meysydd craidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), i hwyluso arloesedd mewn meysydd megis iechyd, cynaliadwyedd a'r amgylchedd drwy drefniadau cydweithredol. Mae'r Rhaglen Partneriaeth Arloesi ar Waith yn anelu at annog arloesedd mewn amgylchedd cydweithredol gan alluogi busnesau i weithio gyda phartneriaid mewn diwydiant, mewn addysg ac yn y sector cyhoeddus.

Bydd y rhaglen yn darparu arbenigedd ac adnoddau i gyflymu datblygiad busnesau bwyd a diod arloesol yng Nghymru a chyflymu twf trwy gyfleoedd Masnach yn y DU neu Allforio trwy fuddsoddiad uchel ei werth mewn arloesedd. Mae Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 – 2020 yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau cynnydd o 30% mewn gwerthiant yn y sector bwyd a diod i £7 biliwn erbyn 2020. Bydd datblygiad marchnadoedd presennol ac allforio ar gyfer cynnyrch bwyd a diod o Gymru yn hanfodol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth.

Mae mentrau clystyrru yn gydweithrediad rhwng gweithredwyr/cwmnïau sector cyhoeddus a phreifat, asiantaethau llywodraeth a sefydliadau academiaidd. Mae datblygu clystyrau'n golygu peidio ag arwahanu cwmnïau, yn enwedig BBaCh, a gweithredwyr eraill, a chysylltu pob un mewn systemau mwy arloesol. Mae nifer o lywodraethau ar draws y byd wedi troi at ddatblygu clystyrau yn ddiweddar i annog arloesedd a thwf economaidd. Mae Clystyrau Bwyd yn allweddol er mwyn cynorthwyo busnesau Cymreig i gyflawni eu gweledigaeth eu hunain yn ogystal â'n gweledigaeth ni.

AMCANION Y PROSIECT

Canfod prosiectau a fydd yn gallu:

- Gwneud y gorau o gyfleoedd cydweithredol ym maes datblygu cynnyrch, gwasanaethau neu brosesau newydd, a fydd yn cyflymu twf trwy gynyddu arloesedd a datblygu llwybrau i'r farchnad.
- Mynd i'r afael â meysydd o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, i hwyluso arloesedd mewn meysydd megis iechyd, cynaliadwyedd a'r amgylchedd trwy drefniadau cydweithredol.
- Mynd i'r afael â heriau cymdeithasol a heriau'r sector cyhoeddus neu faterion cyffredin sy'n wynebu grwpiau bychain o fusnesau.

YR HER

Bydd y rhaglen hon yn cefnogi prosiectau cydweithredol i ddatblygu atebion arloesol ym maes bwyd a diod sy'n ymdrin â heriau cymdeithasol a heriau yn y sector cyhoeddus neu broblemau cyffredin sy'n wynebu grwpiau bach o fusnesau yn y diwydiant bwyd a diod. Bydd cyllid yn cael ei ddarparu i ysgogi arloesi mewn amgylchedd cydweithredol sy'n gadael i fusnesau weithio gyda phartneriaid mewn diwydiant, mewn addysg ac yn y sector cyhoeddus.

Mae'r rhaglen hon yn chwilio am brosiectau cydweithredol sy'n cael eu harwain gan fusnes ac sy'n cynnwys o leiaf un partner arall a allai fod yn fusnes, yn sefydliad ymchwil neu'n sefydliad o'r sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i fusnesau arweiniol fod yn aelodau o'r Rhwydwaith Clystyrau Bwyd a Diod a bod yn fusnes bach a chanolig wedi'i gofrestru yng Nghymru. Dylai busnesau sy'n dymuno ymuno â Rhwydwaith Clystyrau Bwyd a Diod gysylltu â FoodBIS@wales.gsi.gov.uk

Astudiaethau o ddichonoldeb cydweithredol

Pwrpas: Dadansoddi'r potensial i gonsortia gydweithio i ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau neu brosesau newydd. Mae'r cyllid yma wedi'i fwriadu i ddangos dichonoldeb technegol a masnachol y cysyniad a gynigir. Bydd cyllid yn galluogi i brosiectau ddadansoddi a gwerthuso potensial y cysyniadau a'r syniadau sy'n cefnogi'r broses wneud penderfyniadau.

Mae gan y rhaglen ddiddordeb mewn prosiectau a fydd yn cynnwys y meysydd canlynol ern ad yw'r prosiectau'n gyfyngedig i'r meysydd penodol yma:

- Galluoedd lefel uwch mewn Peirianeg
- Deallusrwydd Artiffisial a'r Rhyngrwyd Pethau
- Effeithlonrwydd Ynni
- Iechyd a Maeth

Tu allan i'r cylch gorchwyl

Mae prosiectau a ystyrir tu allan i'r cylch gorchwyl yn cynnwys:

- Prosiectau sefydliadau unigol

- Cynigion sy'n mynd dros yr uchafswm hyd a chost
- Prosiectau nad ydynt yn cynnwys cysyniadau arloesol
- Atebion sydd angen cymeradwyaeth reoleiddiol sylweddol (dylai ymgeiswyr wirio gyda thîm y gystadleuaeth i ganfod a fyddai eu hateb yn gymwys i dderbyn cyllid grant).

DYRANIAD CYLLID A MANYLION Y PROSIECT

Bydd cyfraniad ariannol o 75% ar gael i brosiectau hyd at yr uchafswm cyfraniad grant o £75,000 (gan gynnwys TAW). Bydd angen i brosiectau roi arian cyfatebol o 25% o'r cyfanswm costau cymwys ar ffurf cyfraniadau arian gan y sectorau cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector. Mae'n rhaid i'r prif fusnes o fewn y consortiwm hawlio cyllid drwy'r gystadleuaeth hon. Bydd prosiectau'n para am 4 mis ac mae'n rhaid i brosiectau ddod i ben erbyn 1 Mawrth 2019.

Lluniwyd y rhaglen hon i gychwyn ac i ysgogi arloesi mewn amgylchedd cydweithredol. Bydd y rhaglen yn rhedeg am un cyfnod, er y bydd cyfnodau pellach o bosib yn y dyfodol yn dibynnu ar amcanion y polisi. Nid yw derbyn cyllid ar gyfer y cyfnod hwn o'r rhaglen yn gwarantu unrhyw ariannu pellach ar gyfer ymchwil a datblygiad yn y dyfodol.

Bydd prosiectau'n cael eu dethol trwy broses gystadlu agored a byddant yn cadw hawliau eiddo deallusol a gynhyrchir fel rhan o'r prosiect.

DIGWYDDIADAU BRIFFIO

Bydd digwyddiadau briffio ar gyfer sefydliadau sydd â diddordeb darganfod mwy am y rhaglen yn cael eu cynnal yn y Vale Resort, Hensol, dydd Mawrth 11 Medi 2018 am 1yp a Gwesty'r Quay Hotel, Deganwy, dydd Mercher 12 Medi 2018 am 1yp. Bydd y digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr sydd â diddordeb holi cwestiynau am y gystadleuaeth a chwrdd ag arbenigwyr o Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru. Bydd y digwyddiadau briffio hefyd yn rhoi cyfle i'r sefydliadau rwydweithio a chreu trefniadau cydweithredol.

Nid oes cost i fynychu'r digwyddiadau hyn, ond sicrhewch eich bod yn cofrestru ar gyfer y digwyddiadau ac yn cadarnhau eich bwriad i fynychu cyn gynted â phosibl. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael; bydd y rhain yn cael eu dyrannu ar sail cyntaf i'r felin. I archebu lle yn un o'r digwyddiadau hyn, anfonwch enwau a manylion cyswllt y mynychwyr gyda'r geiriau **DIGWYDDIAD BRIFFIO** wedi'i nodi'n glir at FoodBIS@wales.gsi.gov.uk (Dim mwy na 2 o bob sefydliad. Os bydd galw mawr am leoedd, mae'n bosibl y byddwn yn eich hysbysu mai 1 lle yn unig sydd ar gael). Bydd agenda ar gyfer y digwyddiad briffio a chyfarwyddiadau sut i gyrraedd y lleoliad yn cael eu darparu'n dilyn cofrestriad. Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau neu eisiau eglurhad pellach, cysylltwch â ni.

Y BROSES YMGEISIO

Mae cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i ymgeisio yn y gystadleuaeth ar gael yn y Ddogfen Nodiadau Esboniadol (IP_WG_002).

GWEINYDDU'R RHAGLEN

Bydd y rhaglen hon yn cael ei gweinyddu gan Menter a Busnes ar ran Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru.

DOGFENNAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R RHAGLEN HON

- Brîff y Rhaglen (IP_WG_001)
- Nodiadau Esboniadol (IP_WG_002)
- Ffurflen Gais (IP_WG_003)
- Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Ffurflen Gais (IP_WG_004)

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Lansio'r rhaglen	Gorffennaf 2018
Digwyddiadau briffio	11 a 12 Medi 2018
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	28 Medi 2018
Diwrnod asesu	15 Hydref 2018
Dyfarnu contractau	Hydref 2018
Prosiectau'n cychwyn	29 Hydref 2018
Prosiectau'n dod i ben	1 Mawrth 2019

Noder bod dyddiau'n gallu newid

GWYBODAETH BELLACH

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gystadleuaeth hon, e-bostiwch: FoodBIS@wales.gsi.gov.uk